

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Medi 18: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Nos Lun, Medi 19: Cyfarfod Eglwys i holl aelodau Ebeneser am 7.00 o'r gloch.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Mawrth, Medi 13: Bore Coffi er budd Cronfa Adnoddau'r Capel rhwng 10.45 a 12.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Medi 18: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan Dr Huw Tegid Roberts, Llangefni. Bydd yr oedfa am 5.00 o'r gloch yng ngofal aelodau Parti Bytholwyrdd.

REHOBOTH

Dydd Sul, Medi 18: Ni fydd oedfa.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Medi 18: Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Harri Parri, Caernarfon.

CARMEL

Dydd Llun, Medi 12: Dosbarth Gwau am 2.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Medi 18: Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Ddr Dafydd Wyn Wiliam.

Y mis nesaf - Deiniolen

Medi 11

5.00 p.m. - Y Parchg Idris Thomas

Medi 18

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Medi 25

5.00 p.m. - Y Parchg Trefor Jones

CYNLLUN EFE

Dydd Gwener, Medi 16: Cynhelir y Cyfarfod Gweddi yn Cartref, Caethro am 10.30 o'r gloch.



Cyfarfod Blynyddol
yng Nghapel y Rhos, Llanrug
Nos Lun, Medi 26
7.00 o'r gloch

Y mis nesaf - Llanberis

Medi 11

10.00 a.m. - Y Gweinidog
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Medi 18

10.00 a.m. - Dr Huw Tegid Roberts
5.00 p.m. - Oedfa yng ngofal aelodau
Parti Bytholwyrdd

Medi 25

10.30 a.m. - Oedfa Deulu yng ngofal
Mrs Susan Williams



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 696: Dydd Sul, 11 Medi, 2016

Pymtheng mlynedd

Union bymtheng mlynedd i heddiw, ar Fedi 11, 2001 y chwalwyd dau dŵr Canolfan Masnach y Byd yn Efrog Newydd. Mae'n anodd i neb a welodd y lluniau, ac a ddilynodd ddatblygiadau trasig y bore hwnnw ar sgrin y teledu, anghofio'r digwyddiad hwnnw. Fel llawer ohonoch, mae'n debyg, mi wn yn union ble'r oeddwn pan glywais am yr ymosodiad. Am wythnosau wedyn, bu sôn di-baid am y Ddau Dŵr, ac o fewn dim daeth '9/11' yn derm cryno i gyfeirio at y gyflafan.

Mae gen i lyfryn bach a gyhoeddwyd yn fuan wedi '9/11'. Ei awdur ydi'r Americanwr R.T. Kendall, a oedd ar y pryd yn weinidog yn Westminster Chapel yn Llundain, lle bu'r Cymro Martyn Lloyd Jones yn weinidog am flynyddoedd cyn hynny. Teitl y lyfryn yw *The Day The World Changed*, ac mae'n cynnwys pregeth ac archiad a draddodwyd gan Kendall yn union wedi'r digwyddiad. Fe ddarllenais y lyfryn eto heddiw, a chael f'atgoffa o'r ffordd y ceisiodd Kendall wneud rhyw fath o synnwyr o'r cyfan trwy geisio ei ddeall yng ngoleuni'r hyn a ddywed Y Beibl am bechod dyn ac am yr angen i ni allu ymddiried yn Nuw yng nghanol popeth sy'n digwydd. Roedd Kendall hefyd yn gweld y cyfan yng ngoleuni'r hyn a ddywed Y Beibl am yr hyn sydd i ddigwydd cyn ail-ddyfodiad Iesu Grist yn niwedd y byd.

Un gwerth amlwg i'r lyfryn yw ei fod yn ein hatgoffa o'r angen i geisio deall pob dim yng ngoleuni'r hyn sydd wedi

ei ddatguddio i ni yng Ngair Duw, am Dduw ei hun ac amdanom ni a'r hyn sy'n digwydd i ni yn hyn o fyd. Ni ddylem ryfygu a honni ein bod yn deall mwy nag sydd bosibl i ni ei wneud. Ond nid ydym chwaith yn y tywyllwch, heb gymorth o gwbl i ddeall ac i wynebu gwahanol dreialon. Wedi'r cyfan, mae gennym Dduw sy'n llawn o gariad, ac yn bwriadu ein lles; ac mae'r Duw hwnnw'n llawer cryfach na'r drygioni mwyaf sydd yn y byd.

Mae'r teitl a ddewisodd Kendall i'r lyfryn yn dangos ei fod yn credu y byddai canlyniadau pellgyrhaeddol i'r hyn a ddigwyddodd ar '9/11'. Ar y pryd, ni allai wybod am ganlyniadau erchyll cyhoeddi'r 'Rhyfel yn erbyn Terfysgaeth', saga drist penderfyniad George Bush a Tony Blair i ymosod ar Irac, a'r holl ryfela a ddilynodd, yn cynnwys y bomio a'r ymladd yn y Dwyrain Canol a'r ymosodiadau yn ninasoedd Ewrop a gwahanol rannau o'r byd. Ond roedd yn rhagweld y byddai llawer o bethau yn newid er gwaeth. Gwireddwyd ei ofnau.

Bymtheng mlynedd yn ddiweddarach, a'r byd o bosibl yn lle mwy peryglus, daliwn i weddio dros arweinwyr byd, iddynt gael doethineb i lywodraethu mewn ffordd fwy cyfiawn, yn ofn Duw. Ac fel y gwnai R.T. Kendall, daliwn i annog pawb i geisio Duw ac i ddod trwy Grist i'r berthynas iawn ag Ef, am na wyddom ninnau chwaith beth all ddigwydd mewn un dydd yn y byd cythryblus sydd ohoni.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm

'Y mae llais yr ARGLWYDD
yn uwch na'r dyfroedd ... yn
uwch na'r dyfroedd cryfion ...
yn nerthol ... yn ogoneddus ... yn dryllio
cedrwydd ... yn fflachio'n fflamau tân ...
yn gwneud i'r anialwch grynu ... yn
gwneud i'r ewigod lydnu ac yn prysuro
geni'r llwdn' (o Salm 29).



BEIBL BYW

Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00
o'r gloch gan y Gweinidog a chynhelir
oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r
gloch gan y Canon Idris Thomas.

Bydd yr Ysgol Sul yn aildechrau am
10.30 o'r gloch, a gwasanaethir am 2.00
o'r gloch gan y Parchg Sion Aled Owen.

Gwasanaethir yn Nhalybont am 2.00 o'r
gloch gan Mr Dafydd Iwan, Caethro.

Ni fydd oedfa yn Nant Peris.

Cofion

Dymunwn yn dda i bawb sydd heb fod
yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd.

Ebeneser

**Cynhelir Cyfarfod Eglwys i holl aelodau
Ebeneser Deiniolen yn y festri am
7.00 o'r gloch nos Fercher, Medi 21.
Bu raid newid y dyddiad.**

Gobeithio'n fawr y bydd modd i gymaint
â phosibl o'r aelodau fod yno.

Mae angen ethol Ysgrifennydd a rhoi
trefn ar rai pethau ymarferol.

Bydd llythyr yn cael ei anfon at yr holl
aelodau yn ystod yr wythnos i'w
gwahodd i'r cyfarfod.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â theulu'r Parchg W. R.
Williams a fu farw yn ei gartref yn Y
Felinheli ddydd Sul diwethaf, Medi 4, yn
75 mlwydd oed.

Bu'n weinidog yn Y Felinheli (ac ym
Methel, Caethro a'r Bontnewydd) am
flynyddoedd cyn iddo symud i ardal
Manceinion ac yna i'w ofalaeth olaf yn
ardal Amlwch. Wedi iddo ymddeol o'r
Ofalaeth honno, daeth Wil a Menna yn ôl
i'w cartref yn y Felinheli.

Bu'n gwasanaethu eglwysy'r Ofalaeth
hon yn rheolaidd trwy'r blynyddoedd y
bu yn Arfon ac yn fwy diweddar ers iddo
ymddeol, a gwerthfawrogi ei wasanaeth
bob amser. Mae'n rhyfedd meddwl nad
oes ond ychydig fisoedd ers iddo fod yn
pregethu yma ddiwethaf.

Bu'n weinidog ffyddlon a gofalus i'w
eglwysi, â'i agosatrywydd a'i anwylder a
chynhesrwydd ei gymeriad yn denu pobl
ato. Roedd yn llawn hwyly ac yn hynod o
ffraeth, ond ar yr un pryd yn ddwys ac yn
un y gellid dibynnu arno am gymorth a

chefnogaeth.

Diolchwn i Dduw amdano a'i wasanaeth
ac estynnwn ein cydymdeimlad i'w briod
Menna, ei ferch Elin a'i fab Deiniol a'r
teulu cyfan yn eu profedigaeth. Yn ôl ei
ddymuniad, gwasanaeth angladd i'r teulu
yn unig a gynhelir yfory.

Pen-blwydd Hapus

Bydd Miss Ciss Rowlands, Corlan y
Bont, Deiniolen a'i hefaill Mrs Jennie
Roberts, 5 Rhydfadog, Deiniolen yn
dathlu eu pen-blwydd yn 90 oed ddydd
Iau, Medi 15. Llongyfarchiadau mawr, a
Phen-blwydd Hapus i'r ddwy ohonoch.
Mwynhewch y diwrnod. Dymuniadau
gorau a phob bendith i chi.

Y Ffordd

Mae Undeb yr Annibynwyr Cymraeg
wedi cyhoeddi cynllun newydd y gall yr
eglwysi ei ddefnyddio er mwyn ceisio
meithrin ffydd a hyder at y blynyddoedd
nesaf. Bydd cyfle i bobl y Gogledd
glywed am gynllun 'Y Ffordd' yng
Nghapel Coffa, Cyffordd Llandudno am
7.00 o'r gloch, nos Iau, Medi 15.

Bydd y cynllun yn trafod y canlynol:

1. Ffyrdd trwy'r Beibl
2. Y Ffordd y daethom
3. Tystiolaeth Pobl y Ffordd
4. Gofal Pobl y Ffordd

Yn ystod y flwyddyn gyntaf bydd y
pwyslais ar Y Beibl a Sylfeini'r Ffydd.

Mae croeso i unrhyw un fynd i'r cyfarfod
hwn i gael gwybod rhagor am y cynllun.

Bore coffi

Cynhelir y Bore Coffi misol yn festri
Capel Coch rhwng 10.45 a 12.00 o'r
gloch, ddydd Mawrth, Medi 13 er budd
Cronfa Adnoddau'r Capel.

Cyfarfod Ordeinio

Yn Llansannan, bnawn Sadwrn nesaf,
Medi 17, bydd Dr Rhodri Glyn yn cael ei
ordeinio a'i sefydlu yn weinidog newydd
eglwysi Gofalaeth Fro Aled. Cynhelir yr
oedfa am 2.00 o'r gloch yng Nghapel
Coffa Henry Rees.

Newydd orffen yn yr ysgol gynradd oedd
Rhodri pan symudodd ei deulu o Afon
Goch, Deiniolen i Gapel Curig. Bu ei
rieni, Ifor Glyn a Nest Efans, yn ffyddlon
iawn yng ngwaith yr Efengyl yn ein plith.
Mae blynyddoedd ers hynny, a Rhodri
erbyn hyn yn ŵr a thad, ac wedi cwblhau
gradd doethuriaeth.

Dymunwn yn dda iddo gan weddio y
bydd Duw yn bendithio'r oedfa ac yn
rhoi iddo bob nerth a gras ar gyfer y
gwaith sydd o'i flaen. Mae'r ardal a'r
eglwysi'n gyfarwydd iddo gan iddo
eisoes dreulio cyfnod yno yn gweithio fel
cynorthwy-ydd i'r gweinidog blaenorol.

Cymdeithas Deiniolen

Bydd Cymdeithas Undebol Deiniolen yn
ail ddechrau yn Nhŷ Elidir am 7.00 o'r
gloch, nos Lun, Medi 26. Edrych yn ôl
ar lwyddiant tîm pêl droed Cymru yn
Ffrainc yn ystod yr haf a wnawn ni yn y
cyfarfod cyntaf yng nghwmni Malcolm
Allen, y cyn-bêldroediwr rhyngwladol
sy'n un o sylwebyddion pêl droed mwyaf
poblogaidd Radio Cymru ac S4C erbyn
hyn. Bydd Malcolm yn rhannu rhai o'i
atgofion am gystadleuaeth yr Ewros yn
Ffrainc. Mae croeso cynnes i chi ddod i
wrandio arno.

Cyfarfod Blynyddol Efe

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Cynllun
Efe yng Nghapel y Rhos, Llanrug am
7.00 o'r gloch, nos Lun, Medi 26.
Yn ystod y cyfarfod cawn glywed am
waith Efe dros y flwyddyn ddiwethaf, a
bydd cyfle i drafod unrhyw syniadau ar
gyfer y gwaith i'r flwyddyn nesaf.